GIG CYMRU NHS WALES
Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

# Rhaglen Sylfaen






Fersiwn 2: Hydref 2024

# Tabl Cynnwys

1. Gwybodaeth am y lleoliad
2. Gwybodaeth gyffredinol am Ysbyty Glangwili

## Croeso i Orllewin Cymru

Mae Gorllewin Cymru yn lle hyfryd i fyw, ac mae pob un o brif safleoedd Bwrdd Iechyd Hywel Dda mewn ardaloedd arfordirol gyda thraethau hardd a mynyddoedd ysblennydd ar garreg y drws. Mae gweithgareddau hamdden cyffrous fel syrffio, beicio mynydd, pysgota, hwylio, heicio a cherdded i gyd ar gael yn yr ardaloedd hyn, sy'n enwog am eu harddwch naturiol eithriadol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwasanaethu poblogaeth o tua 385,615 o bobl ledled Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.

## Gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Mae gan y Bwrdd Iechyd gysylltiadau â Phrifysgolion Aberystwyth, Abertawe, Caerdydd a Bangor, yn ogystal â chael perthynas waith dda gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae llawer o'n Hymgynghorwyr yn Ddarlithwyr Cyswllt, Uwch-ddarlithwyr ac yn Athrawon Cyswllt.

## Gwasanaethau Gwybodaeth a Llyfrgell

Mae Gwasanaethau Gwybodaeth a Llyfrgell Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cynnig ystod eang o adnoddau, print ac ar-lein, a gwasanaethau i holl staff, hyfforddeion a myfyrwyr ar leoliad y Bwrdd Iechyd.

Rheolir pob llyfrgell gan lyfrgellydd cymwys ac mae ein staff cyfeillgar a gwybodus yma i gefnogi eich anghenion gwybodaeth at ddiben gofal cleifion, addysg, gwella ansawdd ac ymchwil.

# Caerfyrddin



Mae Caerfyrddin yn dref ddeniadol ar lannau Afon Tywi gyda thirweddau a golygfeydd godidog, sy'n swatio rhwng Sir Benfro a Phenrhyn Gŵyr. Archwiliwch arfordir hyfryd Bae Caerfyrddin i'r gorllewin, Coedwig Brechfa yn y canol, a mynyddoedd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i'r dwyrain. Dewch i ddarganfod trefi hanesyddol fel Talacharn, a ysbrydolodd waith y bardd o Gymru, Dylan Thomas, ac archwiliwch Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.



**Ysbyty Glangwili**



Ysbyty Cyffredinol Glangwili, yng Nghaerfyrddin, yw’r mwyaf o’r pedwar prif ysbyty ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae'r ysbyty'n darparu meddygaeth frys, llawfeddygaeth gyffredinol, gwasanaethau trawma ac orthopaedeg a gwasanaethau meddygol cyffredinol. Mae gwasanaethau diagnostig a therapïau, radioleg, bydwreigiaeth, menywod a phlant ar gael yma hefyd.

*Mae ysbyty Glangwili hefyd yn darparu:*

- Uned Argyfwng bwrpasol ar gyfer derbyniadau brys.
- Uned Penderfyniadau Clinigol sy’n darparu gofal o’r safon uchaf i gleifion sy’n ddifrifol wael.
- Uned Gofal Critigol fawr a modern i oedolion.
- Uned Strôc gyda thîm strôc pwrpasol.
- Gwasanaethau cardiaidd craidd ar gyfer poblogaeth Sir Gaerfyrddin.
- Gwasanaethau gwaedu gastroberfeddol ar gyfer ardal ddeheuol y Bwrdd Iechyd.

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

**Cysylltiadau Trafnidiaeth**

Mae gan Gaerfyrddin gysylltiadau trafnidiaeth rhagorol ac mae'r dref yn agos at yr M4. Mae cysylltiadau ffordd a rheilffordd da i Sir Benfro yn y gorllewin a Chaerdydd a Lloegr i'r dwyrain. Ar gyfer swyddi LIFT, mae elfen lle bydd angen i chi fynd i glinigau a lleoliadau meddygon teulu mewn ardaloedd gwledig. Felly, mae'n bosibl y bydd trafnidiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig. Mae cael mynediad at gerbyd yn fantais.

**Llety a ddarperir gan yr ysbyty**

Mae pob Meddyg Sylfaen yng Nghymru yn cael cynnig llety ysbyty am ddim drwy gydol eu Blwyddyn Sylfaen 1 (F1).

Os na fydd llety ar gael, byddwch yn gallu hawlio treuliau ar gyfer y cyfnod o dan sylw yn lle hynny.

Isod, rydym wedi amlinellu'n fyr y llety sydd ar gael yn y Bwrdd Iechyd hwn:

- Mae llety meddygon F1 wedi'i leoli'n gyfleus ar safle Ysbyty Glangwili, yn agos at y Ganolfan Addysg Feddygol.
- Mae gan bob meddyg sylfaen fynediad at ystafell gyffredin y meddygon, sydd â theledu Sky, Wi-Fi, bwrdd pŵl a chegin.
- Darperir ystafelloedd sengl, gyda rhai fflatiau ar gyfer cyplau priod a allai fod ar gael i'w rhentu, yn amodol ar argaeledd.
- Mae maes parcio i breswylwyr ar safle'r ysbyty.
- Y Swyddog Llety yw Anne Rice (anne.rice@wales.nhs.uk).